# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Ebrill 11eg 2018.

**Presennol.**

Cyng C.Dixon, Cyng G.Hughes,Cyng D.Morris Cyng C.Edwards

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Edwards. Cyng S.Roberts

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 14eg Mawrth 2018**

Cyng Morris yn cynnig fod y cofnodion yn gywir gyda Cyng Hughes yn eilio.

**Materion yn codi:**

Ffordd Lefel/Maes yr Eglwys Wen- Y Clerc i gysylltu ymhellach â'r Adran

Priffyrdd mewn perthynas â'r problemau sy'n ymwneud â'r ffyrdd uchod.

Mae'n amlwg nad yw'r Cyngor Sir wedi darparu ymatebion digonol i'r pryderon a godwyd gan y cyngor cymuned yn ystod eu cyfarfod mis Mawrth.

**Diffribrilydd**

Bydd y cyngor yn dosbarthu llythyrau yn rhoi rhybudd o gyfarfod cyhoeddus yn ymwneud a'r mater, nos Llun Ebrill 30eg.

Cadarnhad bydd y cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal nos fercher Mai 9fed.

**Cynghorydd Sir.**

Ddim yn bresennol.

**Adroddiad cyhoeddus y cyngor.**

Mae'r cyngor yn fodlon i'r adroddiad cael ei yrru i'r Cambrian News ac i rhoi ar y safle we.

**<u>Materion ariannol.</u>**

**Cyson Banc: Mawrth 2018**

**Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £6096.67**

**Derbyniwyd: Dim**

**Taliadau: Cyflog/Paye £100.00**

**Yn y banc diwedd mis £5996.67**

Bydd y Clerc yn gyrru llythyr i 'r cynghorwyr i benderfynu a oes gan unrhyw unigolyn unrhyw fwriad i hawlio taliad neu lwfansau am eu dyletswyddau.

Clerc i wneud cais i HMRC am ad-daliad TAW a dalwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18.

**<u>Llythyrau & E-byst.</u>**

Parc Cenedlaethol- NP5/60/155 Cais adeiliadu estyniad cefn unllawr Isfryn,Ganllwyd.

Ar ol trafodaeth codwyd y sylwadau canlynol:

Mae'r cynghorwyr yn ymwybodol na roddwyd caniatâd cynllunio i eiddo cyfagos o'r enw Gwelfryn oni bai fod adeilad yr adeilad wedi'i adeiladu gyda cherrig. Mae'r cais hwn yn awgrymu y bydd tu allan i eiddo'r ymgeisydd yn cynnwys cladin cerrig.

Nid yw'r cais yn cynnwys unrhyw fesuriadau sy'n ymwneud ag union faint o estyniad y gwneir cais amdano. Nid yw'r diffyg manylion o'r fath yn helpu'r cyngor i ystyried y cais hwn yn llawn.

Mae'r cyngor yn cymeryd fod cymdogion yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'r cais hwn ac wedi cael cyfle i wneud eu sylwadau.
Clerc i yrru'r sylwadau i'r parc.

**Unrhyw fater arall.**

Cyng Hughes yn pryderu fod yna nifer o bobl ar wyliau mewn cartrefi modur yn aros dros nos yn safle parcio Ty’n y Groes.
Mae’n amlwg nad oes digon o gyflysterau yn y lleoliad hyn i ddarpau are u cyfer. Clerc i gysylltu a CNC i drafod y mater.